

Hysbysiad o ddirymu rhif trwydded AN000002 a ddelir gan Bauer Radio Limited o dan adran 111(4) Deddf Darlledu 1990

Cefndir

Mae Bauer Radio Ltd ('Bauer') yn dal y drwydded AM genedlaethol AN000002 (y 'Drwydded') i ddarparu Absolute Radio (y 'Gwasanaeth Trwyddedig'). Rhoddwyd y Drwydded yn 1993 ac mae wedi cael ei hadnewyddu ar bedwar achlysur. Mae wedi cael ei adnewyddu am gyfnod o 10 mlynedd o 1 Mai 2021.

Ar 2 Rhagfyr 2022, bu i Bauer hysbysu Ofcom ei fod yn bwriadu rhoi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig ym mis Ionawr 2023. Esboniodd fod ei benderfyniad o ganlyniad i'r gynulleidfa ddirywiol ar gyfer yr orsaf ar AM a chostau trawsyrru cynyddol. Ar 26 Ionawr 2023 cadarnhaodd Bauer ei fod wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig.

Yn ôl Adran 111(4) Deddf Darlledu 1990 (y 'Ddeddf):

- “(4) Os yw OFCOM yn fodlon yn achos unrhyw drwydded genedlaethol –*
- (a) bod deiliad y drwydded wedi peidio â darparu'r gwasanaeth trwyddedig cyn diwedd y cyfnod y mae'r drwydded i barhau mewn grym ar ei gyfer, ac*
- (b) ei fod yn briodol iddynt wneud hynny,*
- byddant (yn amodol ar is-adran (8)) yn cyflwyno hysbysiad iddo sy'n dirymu ei drwydded.”*

Mae adran 111(8) y Ddeddf yn darparu na fydd Ofcom yn cyflwyno hysbysiad oni bai ei bod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r trwyddedai wneud sylwadau.

Barn gychwynnol Ofcom

Ar 27 Ionawr 2023, ysgrifennodd Ofcom at Bauer yn nodi ei barn gychwynnol bod Bauer wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig cyn diwedd y cyfnod yr oedd y Drwydded i barhau mewn grym ar ei gyfer, a'i fod yn briodol i Ofcom gyflwyno hysbysiad i Bauer sy'n dirymu'r Drwydded.

Rhoddodd Ofcom tan 3 Chwefror 2023 i Bauer wneud sylwadau ar ei farn gychwynnol.

Cynrychioliadau

Ar 27 Ionawr 2023, ymatebodd Bauer gan ddweud nad oedd yn rhagweld gwneud unrhyw gynrychioliadau ynghylch barn gychwynnol Ofcom ei fod yn briodol i ddirymu'r Drwydded.

Penderfyniad Ofcom

Ar ôl ystyried ymateb Bauer, mae Ofcom wedi penderfynu ei bod yn fodlon bod Bauer wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig cyn diwedd y cyfnod y mae'r drwydded i barhau mewn grym ar ei gyfer, a'i fod yn briodol cyflwyno hysbysiad i Bauer sy'n dirymu'r Drwydded.

Trwy hyn felly, mae Ofcom yn rhoi hysbysiad i Bauer, yn unol ag adran 111(4) y Ddeddf bod y Drwydded wedi'i dirymu, yn effeithiol ar unwaith wrth gyflwyno'r Hysbysiad hwn.



Kevin Bakhurst

Cyfarwyddwr Grŵp, Cynnwys Darlledu ac Ar-lein
13 Chwefror 2023